

CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

01248 602131

CyngorLlanllechid@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd dros Zoom ar nos Iau 10 Rhagfyr, 2020 am 19.00

1. PRESENNOL:

Ward Llanllechid Isaf

Y Cynghorydd Evan Jones

Y Cynghorydd Alun Thomas

Y Cynghorydd Margaret Fernley

Y Cynghorydd Megan Tomos

Y Cynghorydd Wyn Bowen Harris

Ward Llanllechid Uchaf

Y Cynghorydd Jên Morris

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Is-gadeirydd, Cyng. Jên Morris.

2. Ymddiheuriadau gan y Cyng. Geraint Hughes, Dafydd K Jones a Kevin Williams.

3. Cofnodion

Nodwyd Cyng. Evan Jones fod angen ychwanegu manylion o dan pwynt 'Maes y Groes' ar y cofnodion. Yn dilyn y newidiadau, penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd, 2020.

4. Materion yn codi o'r cofnodion

Llwybr cyhoeddus yn Tan y Garth – draen o dan y ddaear wedi rhoi yn un o'r caeau, sy'n rhwystro'r llwybr cyhoeddus. Y Clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ofyn am diweddariad, ac i nodi bod y ffermwr wedi cynnig cwblhau'r gwaith ei hun pe bai Cyngor Gwynedd yn darparu'r pibellau. Wedi derbyn ymateb gan Gerallt Jones, Cyngor Gwynedd ei fod am drafod y mater gyda swyddog o'r Uned Dwr ac Amgylchedd a bydd yn dod yn ôl atom ni.

Wal Maes y Groes – Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau y bydd Dinas Contracting yn cwblhau'r gwaith cyn gynted a phosib.

Clwb Rygbi Bangor – pryderus am y golau llachar sydd ar y caeau dros y gaeaf. Traffig ar yr A55 yn cael eu dallu. Y Clerc wedi cwblhau'r ffurflen cwyn gan yr adran gorfodaeth, Cyngor Gwynedd. Y Clerc i lunio llythyr a'i danfon ymlaen at y Clwb i amlygu ein pryderon.

Ysbwriel/Biniau – Y Cyng. Megan Tomos i weld os yw'r 3 bag ysbwriel oedd wedi gael ei adael yn ngwaelod Parc Main dal yno, ac i adrodd yn ôl i'r Clerc.

Maes y Groes – Nodwyd fod man newidiadau wedi cael ei gwblhau yn barod, ac bod angen cadw llygaid yn y dyfodol.

Tai'n Lon – wedi derbyn cadarnhad y bydd Dinas Contracting yn dechrau'r gwaith ar y 11eg o Ionawr 2021.

Terfynau wal mynydd ochrau Dol Awen a Thy'n y Maes – Stad Penrhyn wedi ymateb i egluro bod hwn yn fater i'r tenant ac eu bod nhw yn parhau i siarad gyda Mr David Williams mewn ymgais i gael wedi'i gwblhau. Y Clerc i holi am ddiweddariad.

Paragleidio ar Moel Wnion – wedi derbyn ymateb gan Alan Pritchard, Warden Parc Eryri – Alan wedi holi Dewi Roberts, Ymddiriedolaeth Cenedlaethol am y cytundeb.

Biniau halen – y Clerc wedi danfon y rhestr at Cyngor Gwynedd.

Eglwys Llan – y Clerc wedi derbyn pris gan y contractwr am y gwaith, y contractwr i ddechrau cyn gynted a phosib.

Prosiect i Bartneriaeth Ogwen – y Clerc i holi Meleri Davies am ddiweddariad.

Llwybr Cyhoeddus rhwng Mignant i Tan y Marian – yn dilyn llyfogydd ofnadwy, mae aelod o'r cyhoedd wedi syrthio a brifo. Y Clerc wedi cysylltu gyda'r swyddog llwybrau.

5. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

Cyngor Gwynedd	Gwasanaeth Archwilio Mewnol	£192.00
----------------	-----------------------------	---------

6. Cae chwarae Tal y Bont

Cyflwynwyd ebost gan Cyngor Gwynedd am y Grant Chwarae. Penderfynwyd y byddai'r Cyngor yn gwneud cais am yr isod:

- Goliau 5 bob ochr/pel fasged – Clerc i gael dyfynbris;
- Trac rownd y cae ar gyfer cerdded/rhedeg/beicio – Cyng. Evan Jones i gael dyfynbris gan contractwr lleol;
- Adnewyddu'r offer presennol.

Cyng. Evan Jones a'r Clerc i wneud cais am yr uchod cyn gynted a phosib.

7. Y Mynydd

Cyng. Wyn Bowen Harris i i weithredu'r pwyntiau a godwyd ynghylch gor-bori ar y Mynydd.

8. Gohebiaeth

Cyflwynwyd – Ebst Gareth Edwards – Atal beicio modur ar y Mynydd – Y Clerc i ymateb i'r ebost i gadarnhau ein bod yn cytuno ac yn rhannu ei bryderon, a bod yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi cadarnhau y bydd dwy giât newydd yn cael eu gosod yn yr ardaloedd lle mae gan y beiciau fynediad, ac yn gobeithio y bydd hyn yn atal y broblem yn y dyfodol.

Cyflwynwyd – Grant Chwarae – trafodwyd uchod o dan pwynt 6.

Cyflwynwyd – Beicio yng Nghoedwig Ty'n Hendre – Llawer iawn yn defnyddio'r goedwig i feicio, mae wal ym mhen uchaf y goedwig wedi'i thynnu i lawr er mwyn ei gwneud hi'n haws i'r beiciau gael mynediad. Adroddwyd fod bobl cyn belled a Fanceinion yn ymweld a'r safle, ac hynny yn ystod cyfnod clo covid. Y Clerc i ysgrifennu at Stad Penrhyn i adrodd pryderon y Cyngor.

9. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

Cyfarfod Blynyddol Partneriaeth Ogwen – Cyng. Jên Morris wedi mynychu'r cyfarfod blynyddol. Llawer iawn o waith yn gael ei gwblhau ac yn tyfu yn eithriadol a bod yr Bartneriaeth yn mynd o nerth i nerth.

11. Penderfyniadau Cynllunio:

C20/0154/21/CC

Maes Carafannau Ogwen Bank, Bethesda

Torri a thocio coed sy'n gorchymyn gwarchod coed

Penderfyniad: Ar y gweill.

C19/0950/21/LL

Tir gyferbyn a Maes Bleddyn, Bethesda

Codi 30 tŷ sy'n cynnwys 15 fforddiadwy, mynedfa newydd, parcio ynghyd a seilwaith cysylltiedig

Penderfyniad: Ar y gweill.

C20/0504/21/LL

Tir ar Fferm Corbri, Llanllechid

Codi ty fforddiadwy un llawr, mynedfa, llecynnau parcio, tanc septig ynghyd a thanc cynaeafu dwr

Penderfyniad: ar y gweill.

C20/0847/21/DT

Pandy Uchaf, Pont y Pandy

Dymchwel y modurdy presennol a chodi estyniad deulawr yn ei le ynghyd ac estyniadau eraill i'r ty a chodi modurdy newydd gerllaw.

Penderfyniad: Caniatwyd gydag amodau.

Ceisiadau Cynllunio:

C20/0958/21/DT

Tan Lon Cottage, Ffordd Aber, Talybont

Codi estyniadau ffenestri cromen yn edrychiad blaen yr eiddo ynghyd a chreu llecyn parcio preifat o fewn y cwrtil.

Penderfyniad: Dim sylwadau.

12. Materion Brys

Top Allt Ty'n Hendre – teiars wedi gael ei adael yn yr afon. Y Clerc i hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru.